

Erthygl: Dewisiadau Addysg Bellach

Crynodeb

Mae 'Dewisiadau Addysg Bellach' yn ystyried y mathau o gyrsiau sydd ar gael i chi os ydych yn 16 mlwydd oed a newydd orffen sefyll eich arholiadau TGAU neu gymwysterau cyfwerth, neu rai sy'n hyn ac yn ystyried dychwelyd i ddysgu.

Mae'r erthygl yn cynnwys cyrsiau academaidd a galwedigaethol.

Cyflwyniad

Mae addysg bellach yn disgrifio unrhyw fath o gwrs sy'n cael ei ddilyn gan rywun hyn nag oedran gadael yr ysgol ac sy'n arwain at gymhwyster is na lefel gradd, gradd sylfaen neu ddiploma cenedlaethol uwch.

Pa fath o gyrsiau sydd ar gael?

Yn fras iawn, mae pynciau academaidd a phynciau galwedigaethol. Fe allech chi wneud lefel A academaidd mewn amrywiaeth o bynciau. Mae yna hefyd nifer o gyrsiau lefel A mewn pynciau cymhwysol, sydd â ffocws cysylltiedig â gwaith.

Mae oedolion yn gallu dilyn cyrsiau Mynediad sy'n eu helpu i fynd ar gyrsiau addysg uwch fel graddau, graddau sylfaen a chymwysterau cenedlaethol uwch.

Cyrsiau galwedigaethol

Ystyr 'galwedigaethol' ydi cysylltiedig â gwaith. Mae cyrsiau galwedigaethol yn gallu eich helpu chi i ddeall maes gwaith. Mae llawer yn dysgu sgiliau a gwybodaeth i'w defnyddio mewn swydd neu faes gwaith penodol. Mae'r meysydd galwedigaethol yn cynnwys y canlynol:

- gwaith gweinyddol ac ysgrifenyddol
- amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth
- therapi harddwch
- astudiaethau busnes a rheolaeth
- adeiladu
- peirianeg
- trin gwallt
- lletygarwch ac arlwy
- technoleg gwybodaeth
- hamdden a thwristiaeth
- astudiaethau'r cyfryngau
- gofal cymdeithasol.

Mae rhai cyrsiau galwedigaethol yn cynnwys profiad gwaith, er enghraifft, am un diwrnod yr wythnos neu sawl wythnos. Mae'r cyrsiau'n para awr neu ddwy fel rheol, gan ddibynnu ar y pwnc a dyfnder yr astudiaeth.

TGAU

Mae nifer o gyrsiau TGAU wedi cael eu cynllunio i 'gymhwysu' eu pwnc yn agos iawn i fyd gwaith ac i ddangos ei ddefnydd ymarferol bob dydd. Mae'r TGAU hyn ar gael mewn:

- busnes cymhwysol
- iechyd a gofal cymdeithasol
- peirianeg
- hamdden a thwristiaeth
- gweithgynhyrchu

AS a lefel A mewn pynciau cymhwysol

Mae AS a lefel A mewn pynciau cymhwysol yn rhoi cyflwyniad eang i fyd gwaith i chi. Maen nhw'n eich helpu i ddeall y meysydd hyn drwy ddefnyddio esiamplau go iawn, cysylltiedig â gwaith.

Mae'r cymwysterau'n gallu bod ar gael ar lefel AS ac A fel dyfarniad sengl (gwerth un AS neu lefel A) a dyfarniad dwbwl (gwerth dwy AS neu lefel A), gan ddibynnu ar y pwnc.

Mae'r pynciau canlynol ar gael:

- Celf a Dylunio Cymhwysol
- Busnes Cymhwysol
- TGCh Cymhwysol
- Gwyddoniaeth Gymhwysol
- Peirianeg
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Astudiaethau Hamdden
- Y Cyfryngau: Cyfathrebu a Chynhyrchu
- Y Celfyddydau Perfformio
- Teithio a Thwristiaeth

Cymwysterau galwedigaethol eraill

Mae colegau addysg bellach yn cynnig ystod eang o gymwysterau galwedigaethol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymwysterau BTEC lefel 2 a lefel 3
- cymwysterau City & Guilds
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt a chymwysterau Technegol

Cyrsiau academiaidd

Mae'n bosib dilyn neu ail-wneud pynciau TGAU, neu gofrestru ar gwrs lefel Aac AS. Cewch ddewis cyfuniad o bynciau sy'n addas i'ch diddordebau ac i'ch gallu.

Cofiwch fod rhai cyrsiau lefel A mewn pynciau (galwedigaethol) 'cymhwysol'.

Cyrsiau mynediad

Os nad oes gennych chi'r gofynion mynediad academiaidd arferol i gael lle ar gwrs addysg uwch, efallai y bydd posib i chi ddilyn cwrs Mynediad ('Mynediad i Ddiploma Addysg Uwch') mewn maes perthnasol. Mae'r rhain ar gael mewn colegau addysg bellach ar hyd a lled y wlad.

Pwrpas cyrsiau mynediad yw dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnoch eu hangen i lwyddo ar gwrs gradd neu fath arall o gwrs addysg uwch.

Nid oes unrhyw ofynion penodol, ond dylech holi'r colegau unigol bob amser.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng rhai cyrsiau Mynediad â chyrsiau gradd, felly cewch ddilyn cwrs gradd yn awtomatig os ydych chi'n llwyddiannus.

Fel rheol, mae cyrsiau Mynediad yn gyrsiau blwyddyn llawn-amser neu'n gyrsiau dwy flynedd (neu fwy) rhan-amser. Efallai eu bod ar gael hefyd drwy ddysgu o bell.

Dylech holi darparwr y cwrs rydych chi eisiau ei ddilyn, i wneud yn siwr ei fod yn derbyn pobl sydd wedi cwblhau cyrsiau Mynediad.

Lle mae cyrsiau addysg bellach ar gael?

Cewch hyd i gyrsiau addysg bellach mewn nifer o lefydd, fel a ganlyn

- rhai ysgolion
- colegau addysg bellach cyffredinol, sy'n cael eu galw'n golegau addysg bellach, colegau technoleg, neu golegau celf a thechnoleg
- colegau arbenigol fel colegau amaethyddiaeth neu golegau celf a dylunio
- rhai colegau chweched dosbarth

- colegau trydyddol, sy'n gyfuniad o goleg chweched dosbarth ac addysg bellach

Dulliau astudio

Fe all y dulliau astudio canlynol fod yn bosib:

- llawn-amser
- rhan-amser - dosbarthiadau dydd neu nos
- rhan-amser rhyddhau am ddiwrnod (o gyflogaeth)
- rhan-amser rhyddhau am flocc (o gyflogaeth)
- dysgu o bell

Cofiwch na fydd posib i chi ddewis o'r dulliau uchod i gyd ar gyfer pob cwrs - darllenwch y prospectws yn ofalus.

Amser i Ffwrdd ar gyfer Astudio neu Hyfforddiant

Mae hon yn hawl gyflogaeth i ieuencid 16 ac 17 oed sydd eisoes mewn swydd ond sydd wedi gadael yr ysgol heb lawer o gymwysterau, os o gwbl.

Os nad ydych chi wedi cyrraedd 'lefel cyrhaeddiad' benodol, mae gennych chi hawl i amser rhesymol i ffwrdd i astudio neu hyfforddi i ennill cymwysterau cymeradwy. Hefyd, mae gan ieuencid 18 oed hawl i gwblhau'r astudiaeth neu'r hyfforddiant a gychwynwyd cyn cyrraedd yr oedran hwnnw.

Y safon cyrhaeddiad ydi lefel 2, er enghraifft:

- pump TGAU graddau A*-C
- Edexcel (BTEC) lefel 2 cymwysterau Cyntaf.

Ar hyn o bryd, efallai eich bod chi'n hapus wedi cael gadael yr ysgol, ac yn ennill arian ac yn fwy annibynnol. Er hynny, fe allech chi wynebu anfanteision difrifol yn y dyfodol, er enghraifft, os byddwch chi'n colli'ch swydd neu eisiau symud i swydd well gyda chwmni arall.

Mae Amser i Ffwrdd ar gyfer Astudio neu Hyfforddiant yn gyfle i chi ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae arnoch chi eu hangen er mwyn bod yn fwy diogel nawr ac i wella eich siawns am swydd yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i'r cymhwyster rydych chi'n ei ddewis fod yn debygol o wella eich siawns am swydd ond does dim rhaid iddo fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith rydych chi'n ei wneud nawr.

Mae gennych chi hawl i Amser i Ffwrdd ar gyfer Astudio neu Hyfforddiant, dim ots ers faint ydych chi wedi bod yn eich swydd na pha mor fach ydi'r cwmni. Hefyd mae gennych chi'r hawl hon os ydi eich cwmni'n eich is-gontractio chi i gwmni arall.

Er hynny, dydi'r hawl ddim yn ymestyn i gynnwys contractwyr annibynnol, aelodau'r lluoedd arfog na phobl sy'n gweithio y tu allan i'r DU fel rhan o'u contract, er enghraifft, ar lwyfan olew yn y môr.

Mae gennych chi hawl i 'amser rhesymol i ffwrdd'. Bydd y diffiniad yma'n amrywio gan ddibynnu ar eich anghenion hyfforddi a'r effaith y bydd eich amser i ffwrdd yn ei chael ar y cwmni rydych yn gweithio iddo.

Does dim rhaid i amser i ffwrdd olygu treulio amser o'r gweithle. Gallai gynnwys hyfforddiant mewn swydd, yn rhywle arall yn y cwmni, gyda chyflogwr arall neu drwy ddysgu o bell, yn ogystal â gyda darparwr hyfforddiant cymeradwy neu mewn coleg.

Efallai y bydd posib i chi astudio ar sail rhyddhau am ddiwrnod neu, os oes gan eich cwmni amser llai prysur yn ystod y flwyddyn, ar sail rhyddhau am flocc.

Nid yw hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan eich cyflogwr ond nad yw'n arwain at dystysgrif neu gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol yn cyfrif.

Mae'n rhaid i'r cymhwyster rydych yn gweithio tuag ato fod yn allanol, sy'n golygu bod rhaid iddo gael ei ddyfarnu gan gorff arholi neu ddyfarnu cenedlaethol penodol, a'ch helpu chi i gyrraedd lefel 2.

Gallwch weithio tuag at y lefel hon drwy gymryd nifer o gamau, felly efallai y bydd y cymhwyster cyntaf y byddwch yn ei sefyll yn mynd â chi i lefel 1 neu is, gyda'r nod o astudio neu hyfforddi mwy i gyrraedd lefel 2.

Gallech chi elwa o Brentisiaeth Lefel Ganolraddol. Mae'r rhain yn rhaglenni hyfforddi strwythuredig sy'n seiliedig ar gytundeb ysgrifenedig rhyngoch chi a'ch cyflogwr.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Further Education Courses - Guide**

UK government services and information

Gwefan www.gov.uk/further-education-courses

- **Access to Higher Education**

Cyfeiriad The Quality Assurance Agency for Higher Education, Southgate House, Southgate Street, Gloucester GL1 1UB

Ffôn 01452 557000

E-bost access@qaa.ac.uk

Gwefan www.accesstohe.ac.uk